



Coleg Gŵyr Abertawe
Gower College Swansea

BWRDD Y GORFFORAETH

**ADRODDIAD LLYWODRAETHU
BLYNYDDOL
AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I
BEN 31 GORFFENNAF 2021**

ADRODDIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2020/21

1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â gweithgareddau Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Gŵyr Abertawe yn ystod 2020-21.

2. Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu

2.1 Mae Rheoliadau (Llywodraeth) Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Gŵyr Abertawe 2010 (fel y'u diwygiwyd gan y Gorfforaeth ym mis Mehefin 2015) yn darparu'r Offeryn Llywodraethu ac Erthyglau Llywodraethu ar gyfer Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Gŵyr Abertawe.

2.2 Cafodd y rhain eu diwygio ym mis Mawrth 2020 i ganiatáu ar gyfer cyfranogiad mewn cyfarfodydd yn electronig, ac i fodloni'r gofyniad cworwm lle roedd aelodau'n bresennol yn electronig.

3. Is-ddeddfau

Cymeradwyodd Bwrdd y Gorfforaeth ei Is-ddeddfau yn ei gyfarfod cyntaf ar 14 Mehefin 2010, a chafodd y rhain eu diweddarau ar 23 Mehefin 2011, 25 Mehefin 2012 a Mawrth 2014 ac fe'u diwygiwyd ym mis Chwefror 2015, ac eto gwnaed nifer o nwidiadau ym mis Ionawr 2020. Bydd yr is-ddeddfau'n cael eu hadolygu eto yn ystod blwyddyn academiadd 2021-22.

4. Cyfansoddiad Bwrdd y Gorfforaeth

4.1 Mae aelodaeth o'r Bwrdd yn cynnwys 20 aelod gan gynnwys y Pennaeth, dau aelod o staff, a dau fyfyrwr.

4.2 Mae'r ddau aelod sy'n fyfyrwr yn cynnwys Llywydd Cangen UCM, ac un aelod a ddewiswyd trwy etholiad. Cafodd Llywydd Cangen UCM, Laimis Lisauskas, ei ethol yn nhymor yr haf 2020 a chafodd Sarah Allen ei hethol ym mis Hydref 2020. Aeth i'w chyfarfod cyntaf ar 12 Tachwedd 2020.

4.3 Roedd y ddau enwebai o'r Cyngor, y Cynghorwyr Sam Pritchard a Des Thomas wedi parhau fel aelodau yn ystod y flwyddyn ac ym mis Mawrth roedd Dinas a Sir Abertawe wedi parhau â'i henwebiad i'r Bwrdd.

4.4 Cafodd tri aelod eu penodi ym mis Medi 2020 am gyfnod o bedair blynedd: Dr Jonathan Rance, Yr Athro Catrin Thomas a Dr Sarah Weir.

4.5 Daeth cyfnod swydd dau aelod i ben ar ddiwedd y flwyddyn academaidd yn 2021: Mr Mike Day a Mr Gary Williams. Penodwyd dau aelod i gymryd eu lleoedd: Dr Andrew Iwobi a Mrs Alison Vickers.

4.6 Aelodau'r Gorfforaeth

Yr aelodau a wasanaethodd y sefydliad yn ystod 2020-21 oedd:

Dr D Ashelby
Miss S Allen (myfyriwr)
Mrs H Bjork-Davies
Mr M Day
Mr A Donald
Mr M Howells (Cadeirydd)
Mr M Jones (Pennaeth)
Mrs M Leyshon
Mr L Lisauskas (Llywydd Cangen UCM)
Y Parch Dr A Morgan
Y Cyng S Pritchard
Dr J Rance
Y Barnwr R Singh
Yr Athro C Thomas
Mrs D Thomas
Y Cyng D Thomas
Mrs P Walters
Dr S Weir
Mr G Williams
Mrs S Williams
Mr J Britton wedi'i gyd-ethol i'r Pwyllgor Prosiectau Cyfalaf ac Ystadau.

5. Cadarnhau Cymhwystra

Mae holl Aelodau o Fwrdd y Gorfforaeth yn dangos eu cydymffurfiad â'r meini prawf cymhwystra adeg ymgeisio. Roedd aelodau presennol wedi cadarnhau eu cydymffurfiad parhaus yn ystod mis Awst cyn dechrau blwyddyn academaidd 2020-21.

6. Cylch Gorchwyl

- 6.1 Adolygir y Cylch Gorchwyl ar gyfer pob un o'r Pwyllgorau yn flynyddol ar ddechrau pob blwyddyn a chymeradwywyd mân ddiwygiadau gan y Bwrdd lle bo'n briodol.
- 6.2 Gwnaed diwygiadau mwy manwl i gylch gorchwyl y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol gan gynnwys ei ail-enwi yn Bwyllgor Cyllid, a chrëwyd y Pwyllgor Prosiectau Cyfalaf ac Ystadau (gan ddisodli'r Is-bwyllgor Prosiectau Cyfalaf, a chafodd y cylch gorchwyl ei gytuno gan y Bwrdd.
- 6.3 Cafodd hyn effaith ar strwythur pwyllgorau'r Bwrdd ar gyfer 2020-21. Mae strwythur pwyllgorau presennol Coleg Gŵyr Abertawe fel a ganlyn:
 - Pwyllgor Archwilio;
 - Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd;
 - Pwyllgor Cyllid;
 - Pwyllgor Prosiectau Cyfalaf ac Ystadau;
 - Pwyllgor Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol;
 - Pwyllgor Cymorth Dysgwyr;
 - Pwyllgor Cyflogau;

- Pwyllgor Chwilio a Llywodraethu.

7. Cofrestr Buddiannau

Mae Cofrestrau Buddiannau yn cael eu cynnal ar gyfer Aelodau o Fwrdd y Gorfforaeth ac Uwch Reolwyr. Mae pob aelod yn adolygu ei gofnod yn flynyddol. Mae'r Cofrestrau ar gael i'r cyhoedd eu gweld ar gais.

8. Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o'r Gorfforaeth

8.1 Adolygwyd y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Gorfforaeth gan y Pwyllgor Chwilio a Llywodraethu ym mis Chwefror 2021 a chymeradwywyd y diwygiadau a ganlyn wedyn gan Fwrdd y Gorfforaeth (gweler Cofnod 64.3 Mai 2021)

Y prif ddiwygiadau oedd:

- Gwneud y cyfeiriadau yn niwtral o ran y rhywiau;
- Cynnwys y Polisi Diogelu Data fel un o'r polisiau lle gallai fod rôl i'w chwarae gan lywodraethwyr. Mae'r Polisi'n ymdrin â phrosesu data personol ac mae'n berthnasol i ddata personol a brosesir gan y Coleg, gan gynnwys cyfrifoldebau dros staff a myfyrwyr. Bydd y rhain hefyd yn berthnasol i lywodraethwyr. (paragraff 1.2)
- Mae'r Cod yn cael ei gadarnhau gan lywodraethwyr yn flynyddol (paragraff 1.4)
- Rhaid i aelodau gwblhau gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) (paragraff 3.3)
- Darpariaeth ar gyfer diswyddo aelod o'r Bwrdd neu pan wneir cwyn yn erbyn aelod (paragraff 11). Eglurwyd hyn wedyn i ddangos, lle gwneir cwyn yn erbyn aelod, yr ymchwilir i hyn yn annibynnol ac y byddai'r adroddiad yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Chwilio a Llywodraethu.

9. Chwythu'r Chwiban

9.1 Mae Adroddiad Blynyddol Chwythu'r Chwiban yn cael ei gynhyrchu gan Glerc y Gorfforaeth a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio erbyn mis Rhagfyr bob blwyddyn.

9.2 Os bydd digwyddiadau chwythu'r chwiban yn ystod y flwyddyn, bydd yr adroddiad yn cynnwys:

- Nifer y digwyddiadau chwythu'r chwiban yn ystod y flwyddyn;
- Cadarnhad bod pob ymchwiliad i ddigwyddiad wedi'i gynnal gan asesydd dynodedig;
- Canlyniad pob ymchwiliad;
- Cadarnhad bod pob digwyddiad yn cael ei adrodd wrth y Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd Corfforaeth;

- Y camau a gymerwyd o ganlyniad i ymchwiliadau.

9.3 Adolygwyd y Polisi Chwythu'r Chwiban ym mis Mawrth 2021 a chynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb gan gynnwys yr effaith ar yr Iaith Gymraeg ar yr adeg hon. Yn ogystal â diwygio'r Polisi o ganlyniad i'r asesiad gwnaed nifer o ddiwygiadau eraill. Dyma nhw:

.1 Diwygiadau i ddiwallu Safonau'r Gymraeg

Diwygiwyd y Polisi fel na fyddai'n cael effaith andwyol, ac y byddai'n lleihau'r effaith andwyol, ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac nad yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol drwy gynnwys y canlynol:

5.9 *Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn croesawu unrhyw ddatgeliadau yn Gymraeg a Saesneg a byddwn yn sicrhau ein bod yn cyfathrebu â chi yn eich dewis iaith boed yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog dim ond i chi roi gwybod i ni pa un sydd well gennych. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn creu unrhyw oedi.*

.2 Diwygiadau eraill

- Paragraff 2.3 yn cynnwys y *Clerc i Fwrdd y Gorfforaeth yn y lle cyntaf (cysylltiedig ag aelod o Fwrdd y Gorfforaeth)*;

- Diweddarwyd paragraff 5.5, gelwir Public Concern at Work bellach yn **Protect** a'i wefan yw:

www.protect-advice.org.uk;

- Mae Bwrdd y Gorfforaeth wedi cytuno i ychwanegu'r aelodau canlynol at yr aseswyr dynodedig ar gyfer y Polisi (paragraff 6.2):

Mrs Denise Thomas
Rev Dr Adrian Morgan

- Bydd paragraff 9.2 yn cynnwys cyfeiriad at Raglen Cymorth Gweithwyr y Coleg sy'n rhoi mynediad i wasanaethau cwnsela.

9.4 Cafwyd un gŵyn chwythu'r chwiban yn ystod 2020-21 sy'n cael ei hymchwilio ar hyn o bryd.

10. Cyfarfodydd Bwrdd y Gorfforaeth

10.1 Cynhyrchwyd amserlen flynyddol o gyfarfodydd gan y Clerc a'i chytuno gan Fwrdd y Gorfforaeth yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2020 ac yn ystod 2020-

21 roedd cyfarfodydd Bwrdd y Gorfforaeth a chyfarfodydd Pwyllgorau wedi gweithredu yn ôl y calendr a drefnwyd, heblaw am gyfarfod Mai 2021.

10.2 Yn ystod 2021-21 roedd Bwrdd y Gorfforaeth wedi cwrdd ar 8 achlysur ac o leiaf unwaith bob tymor:

- Tymor yr hydref: 17 Medi 2020; 12 Tachwedd 2020; 10 Rhagfyr 2020.
- Tymor y gwanwyn: 14 Ionawr 2021; 25 Mawrth 2021.
- Tymor yr haf: 13 Mai 2021; 24 Mehefin 2021.

10.3 Cynhaliwyd yr holl gyfarfodydd, heblaw cyfarfod Bwrdd y Gorfforaeth ar 24 24 Mehefin 2021, yn electronig ar Microsoft Teams.

10.4 Roedd cworwm gan bob cyfarfod o'r Bwrdd a'r presenoldeb cyfartalog yn y cyfarfodydd a drefnwyd oedd 86% (seiliedig ar nifer yr aelodau sydd wedi'i chadarnhau, sef 20), ac mae hyn yn welliant parhaus ar y blynyddoedd blaenorol. (80% 19-20, 67% 18-19, 61% 2016-17, 63% 2015-16, 71% 2014-15, 63% 2013-14).

11. Cyfarfodydd Pwyllgorau

Roedd holl gyfarfodydd y Pwyllgorau wedi cael eu cynnal ar y dyddiadau a drefnwyd ac yn electronig trwy Microsoft Teams. Roedd rhai aelodau wedi ei chael hi'n anodd cyrchu'r cyfarfodydd ond mae'r holl ddata presenoldeb wedi cael eu casglu ac i'w gweld yn Atodiad A i'r adroddiad.

12. Y Pwyllgor Chwilio a Llywodraethu a'r Pwyllgor Archwilio

12.1 Fe wnaeth y Pwyllgor Chwilio a Llywodraethu gwrdd ar y dyddiadau a drefnwyd sef 8 Medi 2020, 2 Chwefror 2020 a 4 Mai 2020.

12.2 Fe wnaeth y Pwyllgor Archwilio gwrdd bum gwaith yn ystod y flwyddyn – 1 Hydref 2020, 3 Rhagfyr 2020, 4 Mawrth 2021 a 10 Mehefin 2021.

12.3 Ym mhob un o'i gyfarfodydd roedd y Pwyllgor Archwilio wedi trafod yr adroddiadau archwilio mewnol sydd ar gael, cynnydd o ran argymhellion archwilio blaenorol, diweddariadau ar reoli iechyd a diogelwch a lles, a rheoli risg yn y Coleg, rheoli ceisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth a materion diogelu data, y gofrestr twyll, a nodiadau briffio cleientiaid a ddarparwyd gan yr archwilwyr mewnol.

12.4 Ymhlith y materion eraill a ystyriwyd roedd: adolygiad o gylch gorchwyl y Pwyllgor; lefelau aelodaeth y Pwyllgor; Datganiadau Ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2020 ac adroddiad yr archwilwyr allanol; diweddariad yswiriant; yr adroddiad blynyddol ar gydymffurfiaid y Coleg â'r Memorandwm Ariannol; Datganiad Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl; adolygiad o'r Polisi Diogelu Data; adolygiad o gofrestrau rhoddion a lletygarwch; Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb ac Amrywiaeth; yr Adroddiad Caffael Blynyddol; Adroddiad Blynyddol Iechyd, Diogelwch a Lles; y strategaeth archwilio allanol; adolygiad o'r rheoliadau ariannol.

- 12.5 Fe wnaeth y Pwyllgor Archwilio gwrdd â'r archwilwyr heb i'r rheolwyr fod yn bresennol, ac adolygu perfformiad yr archwilwyr mewnol ac allanol (Rhagfyr 2020).

13. Hysbysiad o Newidiadau i'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd

- 13.1 Daeth Mr Meiron Howells i swydd y Cadeirydd yn dilyn diwedd cyfnod y cadeirydd blaenorol yn y swydd, ar 1 Awst 2020, am gyfnod o bedair blynedd.
- 13.3 Cafodd Mrs Pam Walters ei hethol yn Is-gadeirydd i'r Bwrdd ym mis Mawrth 2020 am gyfnod o bedair blynedd.

14. Adroddiadau Ariannol/Cyfrifon Rheoli

Derbyniodd Bwrdd y Gorfforaeth adroddiadau ariannol a chyfrifon rheoli yn y cyfarfodydd canlynol:

Dyddiad cyfarfod	Adroddiad ariannol
17 Medi 2020	Diweddariad Rhagolygon Ariannol 2020-21
12 Tachwedd 2020	Cyfrifon Rheoli 12 mis a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2020 Diweddariad Rhagolygon Ariannol 2020-21
10 Rhagfyr 2020	Datganiadau Ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2020
14 Ionawr 2021	Cyfrifon Rheoli ar gyfer 2 fis a ddaeth i ben 30 Medi 2020
25 Mawrth 2021	Rhagolygon Ariannol 2020-21 Cyfrifon Rheoli ar gyfer 6 mis hyd at 31 Ionawr 2021
24 Mehefin 2021	Cyfrifon Rheoli ar gyfer 9 mis a ddaeth i ben 30 Ebrill 2021 Rhagolygon Ariannol 2021-22

15. Tâl Cydnabyddiaeth Llywodraethwyr

Ni wnaed unrhyw daliadau i Aelodau Bwrdd y Gorfforaeth yn ystod y flwyddyn, ac eithrio:

- Ad-dalu treuliau teithio a chynhaliaeth;
- Cyflog a threuliau a dalwyd i'r Pennaeth mewn cysylltiad â'i gyflogaeth yn y Coleg.
- Cyflog a dalwyd i Lywydd cangen UCM yn ystod ei flwyddyn sabothol.

16. Contractau i Gyflenwi Nwyddau a Gwasanaethau

- 16.1 Gofynnir i'r Bwrdd hysbysu Llywodraeth Cymru o ddyfarniad unrhyw gontractau ar gyfer cyflenwi nwyddau neu wasanaethau i unrhyw aelod o'r corff llywodraethu am eu gwasanaethau fel aelodau.
- 16.2 Mae'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn Natganiadau Ariannol Blynyddol y Coleg.

17. Bwrdd Academaidd

Nid yw'r Erthyglau Llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Gorfforaeth sefydlu Bwrdd Academaidd ac ar hyn o bryd nid oes Bwrdd Academaidd Coleg.

18. Hyfforddiant Llywodraethwyr a phresenoldeb mewn digwyddiadau

- 18.1 Cafodd y myfyriwr-lywodraethwr (cafodd y myfyriwr-lywodraethwr arall ei ail-ethol i swydd Llywydd Cangen UCM) a thri aelod newydd hyfforddiant sefydlu ar ddechrau eu cyfnod yn y swydd.
- 18.2 Aeth aelodau i ddigwyddiad Cynllunio Strategol ym mis Mawrth 2021 a oedd yn cynnwys datblygiad llywodraethwyr ar gydraddoldeb ac amrywiaeth.
- 18.3 Cafodd yr aelodau fynediad at hyfforddiant ar-lein trwy systemau'r Coleg ac fe'u hanogwyd i ddilyn amrywiaeth o gyrsiau ar-lein.
- 18.4 Darparwyd hyfforddiant i aelodau gan ddarparwr allanol ar chwythu'r chwiban, a rheoli apeliadau, a darparwyd hyfforddiant Diogelu a Prevent gan Reolwr Diogelu a Lles Dysgwyr y Coleg.
- 18.5 Ymwelodd nifer o lywodraethwyr â holl gampysau'r Coleg a chawsant wybodaeth am weithgareddau'r Coleg ym mhob un o'r safleoedd.
- 18.6 Roedd nifer o lywodraethwyr yn bresennol mewn cynhadledd ar-lein a drefnwyd gan Advance-HE ar lywodraethu.

19. Hyfforddiant y Clerc

Mynychodd a chadeiriodd y Clerc (Mrs S Barron) gyfarfodydd rhwydwaith y clerod yn ystod y flwyddyn a pharhaodd â'i datblygiad proffesiynol trwy ymchwil desg, trafodaeth barhaus a chyfraniad parhaus at arfer da trwy rwydweithiau post llywodraethu, a hyfforddiant ar-lein wedi'i ddarparu'n fewnol.

20. Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

- 20.1 Yn unol â'r Cod Llywodraethu Da rhaid i'r Bwrdd fodloni, a dylai anelu at ragori ar, ei gyfrifoldebau statudol dros gydraddoldeb ac amrywiaeth trwy ei gamau a'i ymddygiad ei hun ym mhob agwedd ar ei faterion.

- 20.2 O ran penodiadau i'r Bwrdd mae'r Pwyllgor Chwilio a Llywodraethu yn adolygu amrywiaeth ei aelodaeth gyfredol wrth ystyried y llwybrau i'w defnyddio wrth hyrwyddo swyddi gweigion ac wrth ystyried awgrymu aelodau i'w penodi.
- 20.3 Mae aelodau wedi nodi eu bod yn hyderus am gyfrifoldebau'r Bwrdd mewn perthynas â chydaddoldeb ac amrywiaeth.
- 20.4 Derbyniodd yr aelodau gyflwyniad ar gyfrifoldebau'r Coleg o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a a manylion sut mae'r Coleg yn diwallu amcanion ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol.

21. Cydymffurfio â'r Cod Llywodraethu Da

- 21.1 Cyfeiria'r Cod Llywodraethu Da at ddidwylledd a thryloywder ar ran Bwrdd y Gorfforaeth wrth gynnal ei faterion ac i ba raddau y mae'r Cod wedi'i fabwysiadu.
- 21.2 Mae Llywodraethwyr wedi adolygu cydymffurfiad â'r Cod Llywodraethu Da yn gyffredinol ac yn cydnabod y Cod wrth adolygu prosesau llywodraethu.

Llofnodwyd:

**Cadeirydd y Gorfforaeth
Coleg Gŵyr Abertawe**

Dyddiad.....

Llofnodwyd:

**Clerc y Gorfforaeth
Coleg Gŵyr Abertawe**

Dyddiad:.....

Pwyllgor Archwilio	% presenoldeb	Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd	% presenoldeb
1 Hydref 2020	67%	17 Tachwedd 2020	78%
3 Rhagfyr 2020	50%	2 Mawrth 2021	67%
4 Mawrth 2021	50%	18 Mai 2021	89%
10 Mehefin 2021	50%		
Prosiectau Cyfalaf ac Ystadau	% presenoldeb	Pwyllgor Cyllid	% presenoldeb
7 Hydref 2020	83%	8 Hydref 2020	83%
3 Tachwedd 2020	100%	26 Tachwedd 2020	100%
19 Ionawr 2021	83%	21 Ionawr 2021	83%
9 Mawrth 2021	67%	11 Mawrth 2021	83%
27 Ebrill 2021	83%	17 Mehefin 2021	100%
8 Mehefin 2021	83%		
Pwyllgor Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol	% presenoldeb	Pwyllgor Cymorth Dysgwyr	% presenoldeb
9 Tachwedd 2020	83%	20 Hydref 2020	100%
15 Mawrth 2021	67%	23 Chwefror 2021	50%
14 Mehefin 2021	50%	11 Mai 2021	62%
Pwyllgor Chwilio a Llywodraethu	% presenoldeb	Pwyllgor Cyflogau	
8 Medi 2020	83%		
2 Chwefror 2021	83%		
4 Mai 2021	67%		